Arolygu darpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol

Adroddiad meithrin ar:

Cylch Meithrin Eglwyswrw

Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig: Angela Lake James

Dyddiad yr arolygiad: 20 a 21 Hydref 2009

Rhif y Contract: T/027/09N

Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Adroddiad ar arolygu lleoliadau meithrin yn y sector nas cynhelir

Enw'r feithrinfa: Cylch Meithrin Eglwyswrw

Cyfeiriad: Canolfan Gymunedol Eglwyswrw, Eglwyswrw, Crymych, Sir Benfro

Cod Post: SA41 3SN

Ffôn: 07811256687

Person sy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd: Mrs Angela Harries

Swydd: Arweinydd

Ynglŷn â'r arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oed ysgol gorfodol yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion er mwyn i ddarparwyr allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad arolygu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi'r holl farnau. Dyma'r diffiniadau graddau:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

1.0 Cyd-destun y lleoliad

Cyd-destun lleoliad y feithrinfa:
Mae Cylch Meithrin Eglwyswrw wedi ei sefydlu ers 1973 ac fe gaiff ei gynnal yn adeilad yr hen ysgol gynradd sydd erbyn hyn yn ganolfan i`r gymuned leol. Mae`r Cylch yn cael ei rhedeg gan bwyllgor rheoli gwirfoddol ac yn aelod cofrestredig o Fudiad Ysgolion Meithrin. Darperir cefnogaeth gan Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Sir Benfro.

Darperir ar gyfer plant rhwng dwy a hanner a phedair oed ac mae`r lleoliad ar agor am bedwar bore`r wythnos am 39 wythnos o`r flwyddyn. Ar hyn o bryd, mae 23 o blant ar y gofrestr – 6 yn ddwy a hanner oed, ac 17 yn dair i bedair oed . Ariennir 17 o`r plant tair i bedair oed.

Cyflogir 6 aelod o staff, sef yr arweinydd, 4 cynorthwy-ydd ac 1 cynorthwy-ydd sy`n derbyn hyfforddiant Cam wrth Gam, ac maent yn gweithio yn y Cylch am bedwar bore`r wythnos. Mae ganddynt gymwysterau priodol ac mae pob un ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae`r adeilad, a adnewyddwyd yn 1998, yn cynnwys cyntedd a ddefnyddir gan rieni a gofalwyr wrth iddynt ddod â`u plant ac wrth eu casglu. Arddangosir hysbysebion a dogfennau defnyddiol yma hefyd. Defnyddir y neuadd fawr ar gyfer y gweithgareddau dyddiol, ynghyd ag ardal allanol o flaen yr adeilad. O bryd i`w gilydd, defnyddir yr adeilad gan gymdeithasau eraill sy`n golygu clirio offer ac adnoddau. Serch hynny, mae`r lleoliad yn addas ar gyfer anghenion y Cylch.

Daw tua hanner o`r plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Adeg yr arolygiad nid oedd yr un plentyn o gefndir lleiafrifol ethnig yn mynychu`r Cylch, na chwaith yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Daw`r plant i`r Cylch Meithrin yn ddwy a hanner oed gan adael yn y tymor yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Mae`r Cylch yn medru derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ond nid oes un plentyn felly ar y gofrestr bresennol.

Daw`r plant o ardal Eglwyswrw ac ardaloedd ymhellach fel Trefdraeth, Aberteifi a Llechryd – ardaloedd nad ydynt yn arbennig o ffynnianus na chwaith o dan unrhyw anfantais gymdeithasol.

Dyfarnwyd y Cylch yn Gylch Rhagorol yn y flwyddyn 2007 gan Fudiad Ysgolion Meithrin.

Cafodd y Cylch ei arolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Hydref 2003 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Gorffennaf 2009.

2.0 Prif ganfyddiadau'r adroddiad

2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol darpariaeth addysgol a ph'un a yw'r ddarpariaeth yn hyrwyddo'r nodau ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus ai peidio

Mae ansawdd a safonau cyffredinol y ddarpariaeth addysgol yn briodol ac yn hyrwyddo Canlyniadau`r Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant yn llwyddiannus.

2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y saith/chwech maes dysgu

Maes dysgu	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol	2
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2
Datblygiad mathategol	2
Datblygiad yn y Gymraeg	Amherthnasol
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad corfforol	2
Datblygiad creadigol	2

2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

Ansawdd yr addysg	Gradd ar gyfer plant o dan bump oed
Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant	2
Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant	3
Ansawdd yr addysgu	2
Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau i rieni a gofalwyr	3
Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned	2
Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant	2
Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad	2
Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf	2

3.0 Y safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed.

3.1 Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Daw`r holl blant i mewn i`r Cylch yn hapus gan feithrin perthynas dda â phlant eraill ac oedolion.

Dewisant eu gweithgareddau chwarae yn hyderus ar y cyfan gan ddangos parch ac anwyldeb tuag at eraill. Mae bron pob un yn canolbwyntio`n dda am gyfnodau hwy o amser ac yn gofyn am gymorth yn ôl yr angen.

Mae pob un ohonynt yn awyddus i gymryd rhan yn yr amrywiaeth o weithgareddau a osodir ar eu cyfer yn eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored. Mae llawer yn dangos hyder, mwynhad a pharodrwydd i aros eu tro, er enghraifft wrth arbrofi gydag offer technolegol, fel llygoden y cyfrifiadur a theganau symudol.

Mae pob plentyn yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am lendid personol ac yn deall pwysigrwydd golchi dwylo ar ôl defnyddio`r toiled, cyn bwyta ac ar ôl peintio.

Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau drwy weithgareddau fel dathlu`r flwyddyn newydd Tsieineaidd a dysgu am wahanol fwydydd yn gysylltiedig â gwahanol wledydd.

Dangosant ymwybyddiaeth dda o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru drwy amrywiaeth o weithgareddau yn gysylltiedig â Dydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen a Ffair Aberteifi.

Mae rhan fwyaf o`r plant yn barod i rannu gan ymateb yn dda i ymresymu.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

3.2 Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae bron pob un o`r plant yn gwrando`n dda ar gyfarwyddiadau a`u dilyn. Mae`r plant i gyd yn gwrando`n astud ar storiau gyda`r rhan fwyaf yn ymateb yn frwdfrydig i`r cymeriadau a`r digwyddiadau.

Mae`r holl blant yn ymuno mewn caneuon a hwiangerddi Cymreig gyda mwynhad amlwg.

Mae gallu`r plant i gyfathrebu yn yr iaith Gymraeg yn amrywio ac yn dibynnu i raddau helaeth ar eu cefndir ieithyddol. Mae`r rhan fwyaf o`r plant o gartrefi lle siaredir Cymraeg yn datblygu hyder i ailadrodd eu profiadau personol. Mae`r plant o gartrefi lle siaredir Saesneg yn dangos eu bod yn deall yr iaith Gymraeg drwy ddilyn cyfarwyddiadau ac ailadrodd geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn bwrpasol - ar y cyfan maent yn deall mwy o eiriau nag y gallant eu siarad.

Dengys llawer o`r plant ddiddordeb mewn llyfrau gan eu dal fel darllenydd. Mae llawer ohonynt yn medru adnabod a dewis eu henw o`r pentwr labeli sydd yn eu haros wrth iddynt hunan-gofrestru yn y bore ar ôl cyrraedd.

Mae`r holl blant yn mwynhau arbrofi gyda gwneud marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, er enghraifft, penseli a phenseli lliw ar bapur, a sialc ar fwrdd du y tu allan.

Diffygion

Nid oes unrhyw diffygion pwysig.

3.3 Datblygiad mathemategol

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn ymateb ac yn ymuno`n dda â rhigymau a chaneuon rhif, gan ymuno gyda brwdfrydedd wrth ganu am yr afalau yn disgyn o`r goeden, er enghraifft.

Mae`r mwyafrif o blant yn datblygu diddordeb mewn rhifau ac yn defnyddio sgiliau rhifo yn naturiol yn eu gweithgareddau chwarae.

Mae rhan fwyaf o`r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn weddol gywir mewn cyd-destunau perthnasol, fel wrth ddisgrifio afalau bach a mawr yn eu gweithgareddau peintio a phrintio.

Mae`r holl blant yn ymuno wrth gyfrif o 1-10, gyda llawer yn adnabod ac yn enwi`r rhifau 1-3.

Mae llawer o`r plant yn chwarae gyda siapiau ac yn gwneud modelau da, er enghraifft wrth ddefnyddio siapiau 3D i adeiladu wal tu allan.

Mae rhan fwyaf o`r plant yn didoli a chyfateb gwrthrychau yn ôl lliw a maint, ac ail-greu patrymau sylfaenol.

Mae`r holl blant yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o bwrpas arian wrth iddynt ddefnyddio arain plastig i dalu am eu byrbryd bob bore.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

3.4 Datblygiad yn y Gymraeg

Amherthnasol

3.5 Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn dangos awydd i archwilio ac arbrofi dan do ac yn yr awyr agored. Bu ymweliad ag Allt Pentre Ifan yn gyfle da i`r plant ddatblygu eu sgiliau arsylwi wrth iddynt chwilio am bethau gwyrdd fel rhan o`u prosiect ar liwiau`r hydref.

Mae`r mwyafrif o blant yn dechrau deall am wahanol leoedd yn eu hardal trwy ymweld â`r pentref a chwrdd â`r bobl sy`n byw a gweithio yno.

Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth sylfaenol o`r tymhorau a`u nodweddion. Gwyddant fod dail y coed yn cwympo yn yr hydref. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth dda o elfennau`r tywydd a`r effaith arnynt hwy a chreaduriaid eraill.

Mae rhan fwyaf o`r plant yn dechrau deall y syniad o orffennol a phresennol yn eu trafodaethau dyddiol o "Fy nghalendr" wrth ddewis y diwrnod, mis a`r tymor cywir yn ogystal â thrafod tywydd ddoe a heddiw.

Maent yn dechrau gwerthfawrogi`r gwahaniaethu rhwng ystod o ddeunyddiau, er enghraifft wrth arbrofi gyda gwneud jeli o wahanol liwiau. Gwyddant fod deunyddiau fel jeli yn toddi mewn dwr twym.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

3.6 Datblygiad corfforol

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn datblygu hyder wrth ddefnyddio mannau corfforol y tu mewn a thu allan. Wrth chwarae ar feiciau tu allan, dangosant eu bod yn datblygu sgiliau pedlo, rheoli a llywio da.

Mae rhan fwyaf o`r plant yn defnyddio ystod o offer bach yn dda. Gallant ddefnyddio`r amrywiaeth o offer bach yn hyderus, fel penseli, brwsys a sialc a deunyddiau fel clai a glud.

Datblygant ymwybyddiaeth o`u cyrff eu hunain a sut maent yn symud. Dangosant fwyfwy o reolaeth wrth gydbwyso ar gyfres o flociau ar yr iard tu allan.

Maent yn deall a mwynhau`r gwahaniaethau rhwng rhedeg a cherdded, sgipio a neidio, er enghraifft wrth gymryd rhan ym mabolgampau`r Cylch.

Mae rhan fwyaf o`r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn gallu dechrau a rhoi`r gorau i chwarae pan ofynnir iddynt wneud hynny. Dangosant fwynhad a pharodrwydd i helpu wrth dacluso a rhoi offer heibio.

Dangosant eu bod yn dechrau deall materion diogelwch sy`n gysylltiedig ag ymarfer corff.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

3.7 Datblygiad creadigol

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r holl blant yn archwilio ac yn arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau y tu mewn a thu allan.

Mae rhan fwyaf o`r plant yn hyderus i wneud dewisiadau wrth ddefnyddio paent, papur a glitr i wneud collage personol. Arbrofant yn hyderus gyda afalau o wahanol faint er mwyn eu gosod mewn paent a`u defnyddio i brintio ar bapur.

Dysgant sut i siapio, trefnu a chyfuno deunyddiau, er enghraifft wrth gael profiad o blethu doliau ŷd.

Mae`r holl blant yn ymateb yn gadarnhaol wrth iddynt ganu amrywiaeth o ganeuon gan gynnwys caneuon actol, gan ymateb yn briodol i rhythm gyda`u lleisiau ac wrth berfformio symudiadau dawnsio gwerin syml.

Mae`r rhan fwyaf yn mwynhau chwarae rôl a gwisgo i fyny.

Mae`r plant yn dechrau mwynhau a gwerthfawrogi gwaith plant eraill yn enwedig y gwaith a arddangosir yn dda ar y waliau.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.0 Ansawdd y ddarpariaeth addysgol

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed.

4.1 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae gan y Cylch nodau, gwerthoedd ac egwyddorion clir.

Mae`r Cylch yn llwyddo i hyrwyddo parch tuag at y credoau, agweddau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol amrywiol sy`n bodoli yng Nghymru. Dethlir Gŵyl y Geni a`r Pasg ac mae`r plant yn canu gweddi syml cyn gadael y Cylch bob bore.

Mae`r staff yn hyrwyddo gwerthoedd fel parch, cwrteisi a sensitfrwydd yn ddyddiol, sydd yn annog y plant yn eu tro i ddatblygu gwerthoedd tebyg.

Mae`r plant yn cyd-weithio`n dda ac yn medru rhannu ac aros eu tro gan ystyried teimladau a dymuniadau eraill.

Mae`r staff yn hyrwyddo`r iaith Gymraeg mewn modd cadarnhaol a sensitif, gan roi ystyriaeth briodol i ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Rhoddir cyfleoedd i`r plant ddathlu eu Cymreictod drwy amrywiaeth dda o weithgareddau fel canu, gwrando ar storiau a dathlu gwyliau arwyddocaol fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen yn ogystal â digwyddiadau lleol fel Ffair Aberteifi.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.2 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

Nodweddion da`n gorbwyso diffygion

Nodweddion da

Mae`r cynllunio wedi`i seilio ar y Fframwaith ar gyfer Dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru.

Mae`r staff yn cynllunio mewn dull lleoliad cyfan ac mae`r cynllunio tymor hir yn cynnwys dewis o themau ar gyfer bob tymor ynghyd â gweithgareddau tymhorol.

Gan ystyried diddordebau`r plant, mae`r staff yn cynllunio gweithgareddau addas ar gyfer y chwe maes dysgu sydd yn sicrhau cwricwlwm eang a pherthnasol. Yn ogystal, mae`r cynllunio yn cynnwys cofnod o`r sgiliau i`w datblygu o fewn y gweithgareddau amrywiol.

Mae`r cynllunio yn galluogi`r holl blant i gael mynediad at y cwricwlwm.

Mae`r cynlluniau ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd dda o`r ddarpariaeth a rhoddir pwyslais priodol ar gynllunio ar gyfer amrywiaeth ddiwylliannol.

Gwelir cydbwysedd priodol rhwng y cynllunio ar gyfer gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan y plant yn ogystal â gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion.

Ar y cyfan, mae`r cynllunio yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau`r Cylch y tu mewn a thu allan i`r adeilad.

Diffygion

Nid yw`r cynllunio`n canolbwyntio`n ddigonol ar anghenion plant unigol.

Nid yw`r cynllunio o`r gweithgareddau parhaus yn nodi`n ddigon clir y cydbwysedd o weithgareddau a gynigir i blant, gan gynnwys mynediad at offerynnau cerdd ac ardaloedd cerdd.

4.3 Ansawdd yr addysgu

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r staff yn datblygu dealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen ac mae cyd-weithio da yn amlwg rhyngddynt.

Mae athrawon ymgynghorol cyswllt yr awdurdod leol yn ymweld â`r Cylch yn rheolaidd. Mae`r staff yn dangos parodrwydd i dderbyn cyngor a syniadau ganddynt

er mwyn gwella ansawdd yr addysgu ac i gefnogi cynnydd a chyflwyniad y plant yn effeithiol.

Rhoddir digon o gyfleoedd i`r plant ddysgu trwy chwarae ag ymgysylltiad gweithredol a gwneir hyn trwy ddarparu amrywiaeth ddiddorol a symbylol o weithgareddau a gynhelir dan do ac yn yr awyr agored. Mae`r staff yn hyrwyddo safonau uchel drwy annog y plant yn gyson i gyfrannu, cymryd rhan a mwynhau.

Mae`r staff yn trochi`r plant mewn profiadau a gweithgareddau amrywiol gan eu hannog yn gyson i gyfleu eu hanghenion, eu teimladau a`u meddyliau ac i ailadrodd profiadau. Gwneir hyn drwy ddefnydd o holi pwrpasol ac o ganmoliaeth gyson o ymddygiad, cyflawniad ac ymdrech y plant.

Caiff y plant ansawdd da o ofal, cymorth ac arweiniad a gwerthfawrogir cyfraniad pob plentyn unigol.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.4 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

Nodweddion da`n gorbwyso diffygion

Nodweddion da

Mae`r plant yn cael eu harsylwi gan bob aelod o staff yn ystod eu gweithgareddau beunyddiol a chedwir nodiadau ar unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Trosglwyddir y wybodaeth hon i lyfryn o arsylwadau sydd â thudalen i bob plentyn. Yn y llyfryn, mae lle i gofnodi datblygiadau o ran medrau yn y chwe maes dysgu.

Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae trafodaethau rheolaidd â rhieni a gofalwyr, yn ffurfiol mewn cyfarfodydd rhieni ac adroddiadau ysgrifenedig ac yn anffurfiol mewn trafodaethau dyddiol, yn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu`n dda o gynnydd eu plant.

Mae`r staff yn ymwybodol o`r gweithdrefnau i`w dilyn er mwyn gwneud diagnosis o unrhyw blentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae llyfryn ar gyfer pob plentyn yn cael ei drosglwyddo i`r ysgol gynradd sy`n rhoi darlun cynhwysfawr o gyrhaeddiad. Mae`r llyfryn yn seiliedig ar syniadau Sir Benfro ar gyfer pontio.

Diffygion

Nid yw`r canlyniadau asesu yn cael eu defnyddio`n ddigonol i fwydo`r cynllunio ac i wella`r dysgu.

4.5 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Roedd yr holiaduron a ddychwelwyd gan rieni yn dangos eu bod yn fodlon â chynnydd eu plant a bod eu plant yn hapus iawn yn y Cylch. Roedd trafodaethau pellach yn cadarnhau hyn.

Mae gan y Cylch lawlyfr defnyddiol ar gyfer rhieni newydd. Yn ogystal, caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda trwy gyfrwng cylchlythyrau rheolaidd neu trwy roi hysbysiadau ar hysbysfwrdd y Cylch. Caiff rhieni a gofalwyr eu gwahodd i ymuno mewn gweithgareddau codi arian o bryd i`w gilydd, fel ar adeg y Nadolig.

Mae`r Cylch yn defnyddio ymwelwyr o`r gymuned leol i siarad ac i weithio gyda`r plant ac yn cynllunio gweithgareddau rheolaidd i`r plant gan ddefnyddio`r amgylchedd a`r gymuned leol. Cyfranna hyn yn dda at gyfoethogi dysgu`r plant. Bu ymweliad â fferm, er enghraifft, yn gymorth i blant sylweddoli pwysigrwydd gofalu am bethau byw.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig ond hoffai ychydig o rieni fwy o wybodaeth am gyflawniad eu plant a `r hyn mae`r plant yn ei ddysgu.

4.6 Y graddau y mae'r lleoliad yn cyfrannu at les plant

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r Cylch wedi mabwysiadu polisiau a gweithdrefnau addas sy`n cyfrannu`n dda tuag at hyrwyddo lles plant. Mae`r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymateb yn gyflym i`w hanghenion.

Mae rhestr o bolisiau`r Cylch yn y llawlyfr i rieni ac arddangosir yr holl bolisiau mewn ffeil yng nghyntedd y neuadd. Mae`r rhain yn cynnwys polisi iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant.

Mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant priodol ac arweinydd y Cylch yw`r cydlynydd penodedig ar gyfer amddiffyn plant. Mae gan bob aelod o staff wiriad diweddar gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT).

Mae`r plant yn cael eu goruchwylio`n dda bob amser ac mae trefniadau cadarn ar gyfer derbyn y plant wrth iddynt gyrraedd yn y bore ac wrth i`w rhieni a gofalwyr eu casglu.

Cynhelir asesiadau risg a dril tân yn ôl y gofynion.

Mae`r byrbrydau a ddarperir i`r plant yn iach ac yn faethlon a chaiff y plant ddigon o gyfleoedd i wneud ymarfer corff egniol y tu allan.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.7 Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn y lleoliad

Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae`r Cylch yn elwa o gefnogaeth weithredol y pwyllgor rheoli sy`n cwrdd gan amlaf unwaith bob hanner tymor neu`n amlach yn ôl yr angen. Yn ystod y cyfarfodydd, trafodant ddarpariaeth gyfredol y Cylch ynghyd â syniadau a systemau ar gyfer gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Er enghraifft, mae cynlluniau ar waith i ddarparu ar gyfer adnoddau y tu allan a fydd yn caniatau`r plant i blannu a thyfu blodau a llysiau eu hunain.

Mae gan y staff gymwysterau a phrofiad da ac maent yn mynychu amrywiaeth o gyrsiau a hyfforddiant perthnasol gan gynnwys cyrsiau sy`n eu cyfarwyddo â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth.

Mae gan y Cylch berthynas waith dda â`r ysgol gynradd leol, Mudiad Ysgolion Meithrin, a staff Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Mae`r Cylch yn gwneud defnydd da o`r adnoddau a`r lle sydd ar gael gan gynnwys defnyddio`r amgylchedd lleol.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

4.8 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad wrth weithredu'r materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf

At ei gilydd, mae`r Cylch wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i`r afael â`r materion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf.

5.0 Argymhellion

Mae angen i'r lleoliad:

A1: sicrhau bod y cynllunio yn canolbwyntio`n ddigonol ar weithgareddau sydd wedi`u gwahaniaethu ar gyfer anghenion plant unigol;

A2: defnyddio canlyniadau`r asesu i nodi`r camau nesaf yn nysgu`r plant.

Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu ymhen 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr sydd â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu at Gadeirydd y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant neu'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, fel y bo'n briodol, ac i'r Awdurdod Lleol. Bydd arfarniad o'r camau a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.